**Sgiliau a phrofiad ar gyfer pwyllgorau penodol**

Os dewch yn rhan o feysydd eraill o waith y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol neu ei bwyllgorau bydd angen sgiliau/galluoedd eraill. Ceir disgrifiad ohonynt yma.

**(i) Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol**

- Arweinyddiaeth
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno
- Adeiladu timau a gweithio mewn timau
- Rhwydweithio ac eiriolaeth
- Hygrededd

**(ii) Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Polisi**

Mae gan y swydd hon rôl bwysig yn datblygu polisi'r sector. Mae angen dealltwriaeth dda o anghenion Cynghorau a Phwyllgorau Ardal, ac felly hefyd y gallu i weithio'n gadarnhaol gyda staff y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a darparwyr eraill. Mae sgiliau eraill yn cynnwys arweinyddiaeth, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno, adeiladu timau a gweithio mewn timau, a hygrededd.

**(iii) Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Materion Cyffredinol**

Mae gan y swydd hon rôl bwysig yn monitro sefyllfa ariannol y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a rheolaeth strategol gyffredinol ar adnoddau ariannol y mudiad. Maent yn sicrhau bod cyllid y mudiad yn cael ei reoli/fuddsoddi'n gyfrifol er lles y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a'r sector yn gyffredinol. Dylai fod gan ddeiliad y swydd sgiliau/galluoedd/profiad ariannol cryf gan gynnwys:

Cyllidebu a chynllunio ariannol strategol:

- Gofalu fod yr holl gynlluniau strategol yn cael eu harfarnu'n ariannol a bod cyllidebau'n gydnaws ag amcanion tymor byr a thymor hir bob blwyddyn
- Goruchwylio prosesau cynllunio/cyllidebu gyda'r Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Materion Cyffredinol

**(iv) Ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Materion Cyffredinol**

- Creu mwy o dryloywder ac atebolrwydd
- Adroddiadau ariannol
- Arwain a chynghori cyd aelodau i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon wedi'u harchwilio yn ffurfiol

- Esbonio manylion technegol cyfrifon mewn iaith bob dydd y mae Cynghorwyr yn ei deall yn llawn
- Trafod materion penodol yn y broses archwilio gydag archwilwyr allanol
- Sicrhau y cynhelir safon uchel o gyfrifo rheolaethol er mwyn diogelu asedau
- Trafod gyda'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr

**(v) Ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Strategol**

- Meddwl yn strategol a datrys problemau
- Rheoli/adnabod risgiau
- Llywodraethu corfforaethol
- Dealltwriaeth o'r sector, mudiadau aelodaeth a llywodraeth genedlaethol a lleol
- Meddylfryd creadigol a masnachol
- Datblygu perthnasoedd priodol gyda swyddogion a dealltwriaeth o gyfrifoldebau Adnoddau Dynol ehangach
- Aelod o dîm
- Ymwybyddiaeth ariannol

**(vi) Ar gyfer y Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Materion Cyffredinol**

- Ymwybyddiaeth ariannol gan gynnwys y gallu i ddarllen a deall cyfrifon ac adroddiadau ariannol
- Dealltwriaeth o lywodraethu corfforaethol cadarn
- Cwestiynu/craffu adeiladol
- Annibynnol

**(vii) Ar gyfer aelodau pwyllgorau eraill**

- Y gallu i feddwl yn strategol ac er budd y sector yn hytrach na chynghorau unigol
- Dealltwriaeth o gylch gorchwyl y pwyllgor

- Dealltwriaeth o’r sector ac ymrwymiad i’w wella
- Cyfathrebu
- Aelod o dîm

**(viii) Ar gyfer aelodau’r Pwyllgor Archwilio**

- Ymwybyddiaeth ariannol gan gynnwys y gallu i ddarllen a deall cyfrifon ac adroddiadau ariannol
- Dealltwriaeth o lywodraethu corfforaethol cadarn
- Cwestiynu/craffu adeiladol
- Annibynnol